


# RHODD CYMODI COSTUS CRIST

## WYTHNOS 3 - CYFIAWNDER HILIOL

“Dros Eglwys sydd â’r dewrder i hyrwyddo cyfiawnder hiliol”

**Ysgrythur:** Job 5: 1-16 NRSV (Seisnigeiddiwyd)

### Myfyrdod

Wrth i fudiad Black Lives Matter herio cydwybod y byd yn dilyn llofruddiaeth George Floyd yn Minneapolis yn 2020, ymunodd eglwysi ar yr ynysoedd hyn gydag eraill wrth gynyddu neu adnewyddu eu sylw tuag at waith cyfiawnder hiliol. Wrth i ni gyrraedd trydydd pen-blwydd marwolaeth George Floyd y gobaith yw, er yr ydym yn parhau i aros i weld os mai hyn yw’r achos, bydd y ffocws diweddar hwn yn peri newid sydd wedi’i wreiddio’n ddwfn a pharhaus ac a gaiff ei integreiddio i fywyd a chenhadaeth cymunedau ein heglwys leol.
Wrth fyfyrio ar brofiadau eglwysi Minneapolis fel rhan o Wythnos Weddi dros Undod Cristnogol eleni, cawsom ein hatgoffa am drasiedi arall a ddigwyddodd yn y Deyrnas Gyfunol ddeng mlynedd ar hugain yn ôl: sef llofruddiaeth Stephen Lawrence. Cafodd y modd bwystfilaidd a disynnwyr a dorrwyd einioes y gŵr ifanc hwn yn fyr, a’r hyd y bu rhaid i’w deulu fynd er mwyn ymladd dros gyfiawnder a dinoethi’r hiliaeth sefydliadol a amddiffynnodd llofruddwyr yn hytrach na dioddefwyr, effaith anferthol ar gymunedau ar hyd yr ynysoedd hyn. Ac eto, yn y gwaith a wnaed gan CTBI, mewn partneriaeth ag eraill, ym maes cyfiawnder hiliol yn y blynyddoedd diweddaraf, rydym yn parhau i ddod ar draws lefelau uchel o ofn a dieithrio ymhlith cymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, a gwrthwynebiad i gynnal deialog ynglŷn â hil mewn rhai cymunedau.

Mae gwaith cyfiawnder hiliol yn dod o hyd i gartref naturiol mewn strwythurau eciwmenaidd oherwydd bod y sawl sy’n cymryd rhan yn y gwaith yma yn dod ato gyda gwerthfawrogiad eisoes o amrywiaeth, dyhead i ddysgu am brofiadau pobl eraill, a pharodrwydd i glywed gwirionedd caled ynglŷn â sut gallai ein gweithredoedd neu ddiffyg gweithredu fod wedi effeithio yn anffafriol ar eraill. Ceir dealltwriaeth o fewn y mudiad eciwmenaidd na allwn ddisgwyl cymod ac adferiad perthynas i ddigwydd ar ein telerau ni. Gall fod yna bris, angen i roi, gwneud lle ac i wneud yn iawn. Adlewyrchu'r ysbryd hwn wrth hyrwyddo Sul Cyfiawnder Hiliol, a gafodd ei gynnal ar Chwefror 12 eleni, ac sydd â’i wreiddiau yn ymateb yr eglwys i lofruddiaeth Stephen Lawrence.

Er hynny, mae yna rai, sydd, hyd yn oed o fewn gwaith rhyng-eglwysig, yn ystyried bod sgwrsio am amrywiaeth yn weithred ymrannol ac sydd yn awgrymu, yn hytrach na thrigo ar glwyfau'r gorffennol, y dylem edrych tuag at ddyfodol lle gall pawb gael eu trin yn yr un modd, oherwydd ein bod oll yn mwynhau'r un hawliau a gwarchodaeth gyfreithiol. Mae'r ofn hwnnw o ddinoethi clwyfau cymdeithas yn un dealladwy, oherwydd fe all y gwaith o gymodi fod yn boenus ac anniben. Gallwn deimlo nad oes gennym y cyfarpar i allu rhoi at ei gilydd yr hyn a dorrwyd yn deilchion ers cyhyd.

Dyma lle gall yr adnoddau a ganfyddwn yn ein ffydd ein helpu i adeiladu hyder wrth i ni geisio cael pobl i gwrdd o amgylch y ford. Dywedir wrthym yn narlleniad heddiw o'r Ysgrythur i ymbil ar Dduw i roi gobaith i'r tlodion, ac i gau ceg anghyfiawnder. Gall creu gofod er mwyn gwrando ar brofiadau byw'r sawl sydd wedi dioddef o anghyfiawnder olygu bod yn anghyfforddus a chreu ansicrwydd, ond mae hwn eisoes yn gam tuag at wella, a thuag at greu cymdeithas fwy cyfiawn a thrugarog fydd yn fwy diogel i bawb. Caiff y sylw ei wneud yn aml ein bod yn rhoi lloches i'r sawl sy'n cyflawni trosedd wrth i ni dawelu dioddefwyr anghyfiawnder, ond byddwn hefyd yn gwadu'r cyfle am dröedigaeth o'r galon a all ddigwydd yng ngoleuni ffydd.

## Cwestiynau ar gyfer myfyrfod a thrafodaeth

- Darllenwch erthygl neu gwrandewch ar gyfweliad am berthynas hil neu amrywiaeth a chynhwysiad. Beth sy'n eich calonogi yn eich myfyrdod neu sgwrs? Beth sy'n eich pryderi?
- Ble, yng nghyd-destun eich cymuned leol, y gwelwch ganlyniadau mwyaf niweidiol anghyfiawnder hiliol, ymraniad ac anghydraddoldeb?
- Ble fyddwch chi'n clywed y sgyrsiau mwyaf onest neu ysbrydoledig ynglŷn â chyfiawnder hiliol yn cael eu cynnal? Beth ellir ei ddysgu a'i rannu o'r enghreifftiau hyn o arfer da?

## Camau i'w cymryd

- Edrychwch ar ofod un pwrpas cyfryngau cymdeithasol CTBI ar gyfer yr Wythnos o Weddi dros Undod Cristnogol er mwyn ystyried sut mae eglwysi mewn gwahanol lefydd ar yr ynysoedd hyn wedi tystiolaethu i'r cysylltiad rhwng eciwmeniaeth a chyfiawnder hiliol. Beth allech chi ei ddysgu gan hyn er mwyn helpu i gadw ffocws rheolaidd ar faterion yn ymwneud â chyfiawnder hiliol yn eich gwaith eciwmenaidd ac allgyrrhaeddiol?
- Gwrandewch ar un neu fwy o'r tystiolaethau a rennir ar weminar Hyrwyddwyr Cyfiawnder Hiliol. Oes modd i chi adnabod unrhyw bwyntiau gweithredu sy'n deillio o'r profiadau hyn i'ch eglwys neu rwydweithiau eciwmenaidd?
- Ystyriwch sut mae profiadau o gyfiawnder hiliol a pherthyn yn cael eu profi gan wahanol genedlaethau. Allech chi drefnu dialog rhwng y cenedlaethau ar y thema hon, efallai ffocysu yn arbennig ar sut mae'n effeithio ar bobl ifanc a'u synnwyr o obaith ar gyfer y dyfodol?

**Gweddi**

Dduw cariadus,
Rho i ni’r dewrder i wynebu
creithiau anghyfiawnder hiliol:
er mwyn cefnogi’r sawl sydd wëid dioddef
er mwyn rhannu eu poen
heb ofni cael eu tawelu neu wawdio;
i helpu’r sawl a elwodd o fraint
i ystyried cost y fraint honno i eraill.
Tywysa’r Eglwys i fod yn le gobaith a chydsafiad
mewn cymunedau a gystuddiwyd gan ddieithrio ac ofn,
gan fwyhau eu hapêl am gyfiawnder.
Cadw ni rhag bod yn hunanfoddhaus ynglŷn â pherthnasau a dorrwyd
A chryfha ein hymbenderfyniad gyda gwaith
anniben a phoenus
cymod.
Amen.